Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion cyfarfod 17 Mehefin 2010, 9.30–11.30
## Ystafell Gynadledda 4B

**Presennol:** Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)
Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Helen Birtwhistle (Pennaeth Cyfathrebu Allanol)
Nicola Callow (Pennaeth Cyllid)
Sulafa Halstead (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)
Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)
Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)
Connie Robertson (Pennaeth Ystadau a TGCh)
Ian Summers (Pennaeth yr Uned Gorfforaethol)
Sian Wilkins (Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth)
Cathryn Newman (Ysgrifenyddiaeth)

### 1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kathryn Potter a Craig Stephenson. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2010

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir. Dywedodd Connie Robertson fod penderfyniad wedi'i wneud i beidio ag adleoli'r arwydd 'maes parcio yn llawn', ar ôl derbyn cyngor a'i ystyried.

### 3. Cyllideb ddrafft 2011-12 – Blaenoriaethau strategol

Cyflwynodd Dianne Bevan y papur, a'i ddiben oedd ceisio cyngor ar baratoi strategaeth cyllideb 2011-12 i'w gyflwyno i'r Comisiwn. Roedd tri phrif faes i ganolbwyntio arnynt: sut i benderfynu ar y toriadau a'u dosrannu; lefel y toriadau cyffredinol i anelu amdani; a natur y toriadau i'w gwneud. Cyfeiriodd Nicola Callow at yr enghreifftiau o effaith bosibl, yn dibynnu ar y toriad ar ffurf canran. Cafwyd trafodaeth a chwestiynau am y ffigurau, a gofynnodd Claire Clancy am sylwadau'r Penaethiaid Gwasanaethau ar yr effeithiau posibl yn eu meysydd gwasanaeth.

Cytunodd y Bwrdd y dylid arddangos dull cytbwys, gyda'r angen i fod yn gyson ac i beidio â thanseilio'r galw ar staff i leihau

**gwariant. Dylid cyfeirio at newidiadau mewn gwasanaethau ac opsiynau pecynnu . Cytunwyd y byddai unrhyw doriad yn gyfartal â'r lleihad ym mloc Cymru, neu'n fwy na hynny. Dylid ymgorffori'r pwyntiau hyn i gyd ym mhapur y Comisiwn, sy'n cael ei baratoi gan Nicola Callow. Dylid anfon unrhyw sylwadau pellach ar y lleihad ar ffurf canran, yn rhannol ar gyfer 2011-12 ond ar gyfer blynyddoedd y dyfodol hefyd, at Nicola.**

**4. Cynllun Strategol 2010**

**Bydd Claire Clancy a Adrian Crompton yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Strategol yn wyneb y drafodaeth ar y gyllideb uchod.**

**5. Diddymu'r Cynulliad**

**Cytunodd y Bwrdd y dylai'r papur gynnwys cyfeiriad at: waith etholaethol; lefel y cymorth ar gyfer ACau a'r effaith ar Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn ystod diddymu; a'r atborth gan y tri grŵp prosiect. Roedd angen eglurder o ran yr hyn yr oedd gofyn i'r Comisiwn benderfynu arno, a goblygiadau'r penderfyniadau hynny.**

**Cam i'w gymryd: Steven O'Donoghue i ailddrafftio'r papur gan ymgorffori'r sylwadau uchod.**

**6. Strategaeth e-Ddemocratiaeth**

**Cytunwyd i gynnal gweithdy Bwrdd Rheoli ar wahân gyda'r Adran Cyfathrebu Allanol er mwyn trafod y Strategaeth mewn mwy o fanylder.**

**Cam i'w gymryd: Cathryn Newman i drefnu'r gweithdy.**

**7. Parcio ceir**

**Cafodd y ffigurau arfaethedig eu paratoi gan Connie Robertson, Adrian Crompton a Steven O'Donoghue o ganlyniad i'r dasg a osodwyd iddynt yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Bwrdd Rheoli. Cytunodd y Bwrdd ar y cynnig i godi tâl am barcio. Byddai'r ymgynghori â rhanddeiliaid yn cychwyn, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch y trefniadau gweinyddol. Dylid dileu pob agwedd ar gymhorthdal, a byddai Steven O'Donoghue a Nicola Callow yn paratoi atodiad i'r papur ar y gyllideb ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf o'r Comisiwn.**

**8. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009-10**

**Cytunwyd ar y papur, yn amodol ar ddefnyddio'r gair "cymeradwyo" yn hytrach na "nodi cynnwys" ym mharagraff 2.1. Bydd angen mwy o ymrwymiad a chydlyniant ar y cyd ar gyfer adroddiadau'r dyfodol.**

**9. Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2009-10**

**Cytunwyd ar y papur drafft. Dylid anfon unrhyw sylwadau pellach at Craig Stephenson ar ôl iddo ddychwelyd. Mynegodd y Bwrdd ei ddiolch i gydgysylltwyr yr Iaith Gymraeg.**

## Papurau i'w nodi

**10. Adroddiad Rheolaeth Ariannol**

**Nodwyd yr adroddiad. Cytunwyd bod angen lleihau'r gwallau er mwyn lleihau'r gwaith gweinyddol a chreu rhagolygon cywir. Byddai Nicola Callow yn cynhyrchu adroddiad 'gwersi wedi'u dysgu' ar gyfer 2009-10.**

**11. Dashfwrdd Perfformiad Allweddol**

**Diolchwyd i Jonathan Thomas am ei waith yn cynhyrchu'r dashfwrdd 'nodau' amgen. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd roi atborth i Jonathan o ran eu dewis o ddashfwrdd.**

**12. Adroddiad ar brif bwyntiau'r Adran Adnoddau Dynol**

**Nododd y Bwrdd yr adroddiad.**

**13. Rhaglen dreigl**

**Nododd y Bwrdd y Rhaglen dreigl.**

## Dirwyn y cyfarfod i ben

**14. Unrhyw fater arall**

**Dim.**

**15. Cyfathrebu â staff**

**Steven O'Donoghue i drefnu i'r testunau a drafodwyd gael eu cyfathrebu i staff drwy'r Dudalen Newyddion cyn gynted â phosibl.**

**16. Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf**

**Claire Clancy a'r Cyfarwyddwyr i gytuno ar yr eitemau i'w cynnwys ar yr agenda.**

**Ysgrifenyddiaeth**
**Mehefin 2010**